Gofal yn y Gymuned ar gyfer Pobl Hyn

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

11/04

YMG 2

PWY SY'N GYMWYS I DDERBYN GOFAL YN Y GYMUNED?

Mae'r daflen hon yn cyflwyno gwybodaeth i chwi ar y gwasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo pobl gydag anghenion gofal yn y gymuned a sut y gallwch elwa o'r gwasanaethau hyn.

Y Cam Cyntaf yw i geisio gwybodaeth gan unrhyw un o'r mudiadau sydd wedi eu rhestru.

Yr Ail Gam yw i drafod eich anghenion gydag Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, fydd os ydych yn dymuno, yn cynnal Asesiad o'ch anghenion a fydd yn arwain at ddarparu Pecyn Gofal Addas.

Y Trydydd Cam yw y bydd rhaid i chi benderfynu ar y ffordd orau ymlaen.

SUT I GYSYLLTU Â NI?

Fe all problemau corfforol neu gymdeithasol fod yn rwystr i'ch ffordd o fyw. Os oes gannych unrhyw broblemau iechyd efallai fe ddymunwch siarad a'ch meddyg i ddatgan eich pryderon. Os ydych chwi neu rhywun yn eich gofal o'r farn bod angen cymorth gan Wasanaethau Cymdeithasol, gallwch ysgrifennu, ffonio, neu alw i mewn yn ein swyddfa yn Llangefni; Ffôn (01248) 752700 neu fe allwch ofyn i berthynas neu gyfaill i gysylltu gyda ni ar eich rhan.

SUT I OFYN AM ASESIAD?

Os nad yw'r person cyntaf yr ydych yn siarad ag yn gallu ateb eich holl gwestiynau, yna gallwn drefnu i naill ai Weithiwr Cymdeithasol, Therapydd Galwedigaethol, Ymgynghorydd Anabledd, neu unrhyw aelod proffesiynol arall o Iechyd Cymunedol i ymweld â chwi adref er mwyn

- Egluro eich sefyllfa
- Cyflwyno gwybodaeth i chwi am y gwasanaethau sydd ar gael
- Cynnig cyngor a chymorth
- Cynnig asesiad llawn o'ch anghenion a thrafod pa wasanaethau sydd angen eu darparu i gyfarfod â'ch anghenion.

Mae gan ofalwyr hawl i ofyn am asesiad ar wahân o'u anghenion eu hunain. Fodd bynnag byddwn yn ceisio rhoi ystyriaeth i anghenion pob gofalydd wrth asesu'r sawl sydd yn eu gofal.

Gellir gwneud trefniadau i asesu eich anghenion unai yn eich cartref neu rhywle arall (e.e. Ysbyty).

Mewn argyfwng byddwn yn trefnu i asesu eich anghenion ar frys - h.y. o fewn 24 awr. Os bydd argyfwng yn digwydd yn ystod penwythnos neu gyfnod gwyliau gallwch gysylltu â Thîm Allan o Oriau ar 01286 675 502.

A FYDD RHYWUN ARALL YN GYSYLLTIEDIG Â'R ASESIAD?

Gall aelod arall o'r teulu neu ofalydd fod gyda chwi yn ystod yr Asesiad, a chroesawir unrhyw sylwadau ganddynt. Bydd yr Asesydd yn falch o gael sgwrs â nhw.

Os oes gennych chwi neu'ch gofalydd unrhyw broblemau gyda'ch iechyd neu'ch cyflwr corfforol / meddyliol, bydd yr Asesydd yn ystyried yr angen i gysylltu gyda'ch Meddyg, neu Y Nyrs Ardal neu eraill sy'n rhan o wneud yr asesiad. Bydd Y Meddyg, Y Nyrs Ardal a'r Gweithiwr Cymdeithasol yn gweithio ar y cyd er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn y gwasanaethau cywir i ateb eich anghenion.

Mewn achosion pan fydd yr asesiad yn digwydd yn yr Ysbyty, fe gynhwysir pawb sy'n gysylltiedig â'ch triniaeth yn yr asesiad er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn pecyn gofal sydd fwyaf addas i gyfarfod a'ch anghenion. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i'ch helpu i ddychwelyd adref ac i hyrwyddo eich annibyniaeth.

GWASANAETHAU AR GAEL YN Y GYMUNED I HYBU ANNIBYNIAETH

MAE'R GWASANAETHAU SYDD AR GAEL I'CH CYNORTHWYO I BARHAU I FYW ADREF YN CYNNWYS:

- Gofal Cartref a chymorth gyda gofal personol;
- Pryd ar Glud neu fwydydd wedi eu rhewi;
- Gwasanaethau Gofal Dydd;
- Gofal Môn - System Larwm Gymunedol i alw am gymorth mewn argyfwng;
- Addasiadau neu ddarpariaeth offer;
- Cymorth ymarferol a chefnogaeth i Ofalwyr;
- Cyngor ynglyn a'ch hawliau i fudd-daliadau;
- Gofal Ysbaid dros dro mewn cartrefi preswyl neu nyrsio / ysbytai cymunedol (yn unol â'ch lefel o angen);
- Llety Gwarchod neu gynlluniau byw yn y gymuned gyda gofal ychwanegol.

Efallai eich bod yn deilwng i gefnogaeth neu wasanaethau eraill sy'n ymwneud â thai i'ch galluogi chwi i fyw yn fwy annibynnol. Fel arfer mae cyfnod amser y gwasanaethau yma wedi eu cyfyngu ac yn cael eu darparu o dan Raglen Cefnogi Pobl.

- Cymorth gyda sicrwydd a diogelwch yn y cartref;
- Cymorth gyda threfnu a delio ag atgyweiriadau bychan i gyfarpar a chynnal a chadw dyfeisiau;
- Hyfforddiant sgiliau bywyd;
- Hebrwng a chymorth gyda siopa a rhedeg negeseuon eraill;
- Cymorth / cyngor gyda chyllid personol.

PWY FYDD YN DARPARU Y GWASANAETHAU?

Gennych chwi y mae'r hawl i ddewis pwy sy'n darparu'r gwasanaethau. Gall staff Gofal Cartref Gwasanaethau Cymdeithasol neu Asiantaethau Annibynnol sydd wedi'u cymeradwyo gan yr Adran i ddarparu'r gwasanaethau yma.

BETH FYDD YN DILYN YR ASESIAD?

Ar ôl cynnal yr asesiad o'ch anghenion, bydd yr Asesydd yn gweithio gyda chydweithwyr proffesiynol arall er mwyn trefnu pecyn gofal neu wasanaethau cefnogol ac anghenion iechyd. Bydd hyn yn cael ei gyfarfod o fewn yr adnoddau Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd ar gael.

Bydd Asesydd yn ymweld a chi o bryd i'w gilydd i adolygu'r gwasanaeth a sicrhau fod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn ddigonol. Fe allwch gysylltu â'r Adran os dymunwch, i ofyn am adolygiad o'ch anghenion pe bai eich amgylchiadau yn newid.

COSTAU GWASANAETH YN Y GYMUNED

Bydd Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn codi tâl fechan am rai gwasanaethau megis, Gofal Cartref, Gofal Dydd, Pryd ar Glud, a chludiant.

Adolygir y costau hyn o bryd i'w gilydd a gellir derbyn manylion trwy gysylltu â'r

Y DREFN GWYNO

Mae Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn awyddus i dderbyn adborth oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth ynglyn a'r ffordd yr ydym yn trefnu a darparu gwasanaethau. Mae gennych hawl hefyd i gyflwyno cwyn swyddogol i'r Adran os ydych yn anfodlon gyda'n gwasanaeth (Gweler taflen wybodaeth YMG10 ynglyn â'r Drefn Gwyno).

MANNAU GWYBODAETH

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

Gwasanaethau Cymdeithasol
Ffôn: (01248) 752752
Ffacs :(01248) 752107
Ffôn Testun (01248) 750602
E.bost:gwasanaethaucymdeithasol@ynysmon.gov.uk

Tai
Ffôn : (01248) 752200
Ffacs: (01248) 750032

Canolfannau Cynghori
Caergybi : Ffon: (01407) 762882
Bangor : Ffôn: (01248) 352598
Llangefni: Ffôn: (01248) 724902

Tîm Gwaith Cymdeithasol Ysbyty
Ysbyty Gwynedd
Bangor
Ffôn (01248) 384968;
Ffacs (01248) 371220

Cyngor Henoed Môn a Gwynedd
Ffon: (01286) 677711

Cynnal Gofalwyr
Ffôn: (01248) 370797
Ffacs:(01248) 371302

Cymdeithas Clefyd Alzheimers Gwynedd a Môn
Ffôn: (01248) 353608

Gofal Môn
Ffôn: (01248) 750124/5

Ymddiriedolaeth Elusenol Hawliau
Lles Anabledd
Ffon: (02148) 352227

Canolfan Y Di-Waith
Ffôn (01407) 760208

Canolfan Byw'n Integredig
Ffôn: (01248) 750249

Cyngor Iechyd Cymunedol
Ffon: (01248) 723283